

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Strategol / *Strategic Headteacher*: Mr R. Clive Williams
Pennaeth Gweithredol / *Acting Headteacher*: Mr Gareth Ll. James

LLYTHYR YSGOL GYFAN

FFOTOGRAFFAU TEMPEST – Yn dilyn y sesiwn tynnu lluniau ddydd Gwener diwethaf, mi ddylai pawb fod wedi derbyn ffurflen archebu ar gyfer ffotograffau unigolion a theuluoedd erbyn hyn. Bydd angen dychwelyd yr archebion erbyn y dydd Llun cyntaf wedi'r gwyliau hanner tymor **fan bellaf (03/11/2014)** os gwelwch yn dda. Byddem yn gwerthfawrogi eu derbyn yr wythnos hon os yw hynny'n bosib.

GWYLIAU HANNER TYMOR – Nodyn atgoffa y bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ddydd Gwener yma, Hydref 24ain am 3:30yp, ac yn ail agor i staff a disgyblion ar ddydd Llun y 3ydd o Dachwedd.

FFAIR LYFRAU Y G.Rh.A – Dyddiad i'ch calendr: Bydd y Ffair Lyfrau yn cael ei chynnal ar nos Iau y 6ed o Dachwedd rhwng 5:00 a 6:30yh. Os hoffech wybod pwy yw'r cynrychiolwyr ar y pwyllgor eleni ar gyfer cynnig help llaw ewch i wefan yr ysgol: www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk/crha.html

BLWYDDYN 6 – Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol fore dydd Mercher yma (22/10/2014). Bydd y sesiwn am ddim a bwriadwn gerdded i fyny felly gwisgwch esgidiau addas a chofiwch ddod â chot law os gwelwch yn dda.

WHOLE SCHOOL LETTER

TEMPEST PHOTOGRAPHY – *Following the photography session last Friday, everyone should have received an order form for individual and family photographs. These order forms need to be returned by the first Monday following the half term holidays **at the latest (03/11/2014)**. We would appreciate them back this week if possible.*

HALF TERM HOLIDAYS – *A reminder that the school will close for half term holidays this Friday, October 24th at 3:30pm; and will reopen for staff and pupils on Monday the 3rd of November.*

P.T.A BOOK FAIR – *A date for your calendar: The PTA Book Fair will be held on Thursday evening, the 6th of November between 5:00 and 6:30pm. If you would like to know who the PTA representatives are for this year in order to offer a hand, please go to the website: www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk/english/pta.html*

YEAR 6 – *Year 6 pupils will be visiting the National Library this Wednesday (22/10/2014). The visit is free of charge and we intend walking there so please remember to wear suitable footwear and to bring a raincoat.*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
*If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.***